The Electoral Commission

Cynllunio ar gyfer y newidiadau i'r Ddeddf Etholiadau: paratoadau cynnar

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Wedi'i ddiweddaru	**Disgrifiad o'r newid**
5 Hydref 2022	Diweddariadau i: • Cyfeiriadau at Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr yn lle dogfen adnabod etholiadol drwyddo draw • Cynlluniau ar gyfer cyhoeddi canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau • Gwybodaeth ariannu a ddarparwyd gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau • Testun ar hyfforddiant a thestun ar gyfathrebu • Gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ar gyfer Swyddogion Canlyniadau: Cymorth ar gyfer pleidleisio i bobl anabl
18 Tachwedd 2022	• Gwybodaeth am ganllawiau'r Comisiwn ar Dystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr a Dogfennau Etholwyr Dienw ar dudalen 2 • Testun ar gynllunio corfforaethol awdurdod lleol wedi'i ddiweddaru ar dudalen 3 • Gofynion staffio wedi'u diweddaru a dolen i ganllawiau cymarebau staff Gorsafoedd Pleidleisio wedi'u diweddaru ar dudalennau 5 – 6 • Testun ar hyfforddiant wedi'i ddiweddaru ar dudalennau 6 – 8 • Testun ar leoliadau ac offer wedi'i ddiweddaru ar dudalen 8

	• Gwybodaeth ychwanegol am gyfathrebiadau ac ymgyrch ID pleidleisiwr y Comisiwn ar dudalennau 10 – 11 • Testun ar weithio gyda chyflenwyr wedi'i ddiweddaru ar dudalennau 12 – 13

Cefndir

Mae'r Ddeddf Etholiadau (y Ddeddf), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022, yn gwneud amrywiaeth o newidiadau a fydd yn effeithio ar weinyddwyr etholiadau, ymgyrchwyr a phleidleiswyr. Bydd y rhain yn berthnasol yn y mathau canlynol o etholiad:

- Etholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr
- Etholiadau lleol yn Lloegr – gan gynnwys etholiadau maerol
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr

Disgwylir y bydd y darpariaethau canlynol yn Neddf Etholiadau 2022 ar waith ar gyfer etholiadau mis Mai 2023:

- Gwneud hi'n haws i bobl anabl bleidleisio
    - Gall pleidleiswyr anabl ddewis unrhyw un dros 18 oed i fynd gyda nhw i'r orsaf bleidleisio, er mwyn eu helpu i bleidleisio
    - Gofyniad i Swyddogion Canlyniadau gymryd pob cam rhesymol i ddarparu cyfarpar i helpu pleidleiswyr anabl i bleidleisio yn annibynnol ac yn gyfrinachol yn yr orsaf bleidleisio a, thrwy wneud hynny, roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Etholiadol.
- Gofyniad i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ddangos prawf adnabod ffotograffig cyn iddynt gael eu papur pleidleisio. Bydd unrhyw un nad yw'n meddu ar un o'r mathau angenrheidiol o brawf adnabod ffotograffig yn gallu gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr, a gaiff ei darparu am ddim gan ei Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol.
- Newid i'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau maerol o ddull pleidlais atodol i System y Cyntaf i'r Felin.

I'ch helpu i baratoi ar gyfer y mesurau newydd a'u rhoi ar waith, byddwn yn cyhoeddi canllawiau craidd newydd a diwygiedig ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac ymgeiswyr ac asiantiaid. Byddwn hefyd yn diweddaru adnoddau allweddol megis y llawlyfr i orsafoedd pleidleisio, sleidiau hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio, sleidiau briffio ymgeiswyr ac asiantiaid a chwestiynau cyffredin i staff rheng flaen. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r gymuned etholiadol i lywio'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau a'r adnoddau er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion gweinyddwyr.

Rydym yn mabwysiadu dull graddol o ddarparu'r canllawiau, gan ganolbwyntio ar gael yr hyn sydd ei angen arnoch cyn gynted â phosibl ac yn y drefn y bydd ei angen arnoch.

Er nad yw'r manylion sy'n ymwneud â gweithredu rhai o'r mesurau yn y Ddeddf wedi'u cadarnhau o hyd, mae'r is-ddeddfwriaeth ddrafft sy'n nodi'r mesurau ar gyfer prawf adnabod pleidleiswyr bellach wedi'i gosod yn Senedd y DU.

Bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i etholwyr ddarparu ID ffotograffig er mwyn pleidleisio'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio mewn etholiadau penodol ac i lofnodi deisebau adalw mewn man llofnodi o fis Mai 2023 a hefyd yn cyflwyno'r broses ymgeisio ar gyfer Tystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr a Dogfennau Etholwyr Dienw a gynhyrchir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer etholwyr nad oes ganddynt ffurf dderbyniol o ID pleidleisiwr i'w ddefnyddio yn yr orsaf bleidleisio.

Bydd y broses ymgeisio yn cychwyn o fis Ionawr 2023, ac rydym wedi cyhoeddi ein canllawiau craidd cychwynnol ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r broses newydd.

Rydym yn gweithio ar ganllawiau pellach ar gymhwyso'r mesurau - yn enwedig mewn perthynas â chynlluniau Swyddogion Canlyniadau, mesurau hygyrchedd a chyflawni prosesau gorsafoedd pleidleisio - a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynlluniau ar gyfer hyn trwy'r Bwletin Gweinyddu Etholiadol fel yr arfer. Disgwyliwn i'r Llawlyfr Gorsafoedd Pleidleisio gael ei gyhoeddi yn unol â'n hamserlenni arferol cyn yr etholiadau sydd wedi eu trefnu, ym mis Chwefror 2023.

Diben

Tra bod ein gwaith ar y canllawiau ehangach yn parhau, nod yr adnodd hwn yw tynnu sylw at yr agweddau hynny y gallwch ddechrau eu hystyried a chynllunio ar eu cyfer nawr. Bydd yr adnodd hwn yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen wrth i ni gael rhagor o eglurder ynghylch y manylion a byddwn yn nodi pan wneir unrhyw newidiadau drwy'r Bwletin Gweinyddu Etholiadau a'r cofnod newidiadau uchod.

Er nad oes etholiadau wedi'u trefnu mewn llawer o ardaloedd ym mis Mai 2023, gall y canllawiau eich helpu i wneud paratoadau cynnar o hyd fel eich bod yn barod ar gyfer y digwyddiadau pleidleisio cyntaf – boed yn rhai wedi'u trefnu ai peidio – pan fydd y darpariaethau newydd hyn ar waith yn eich ardal chi. Bydd hefyd yn eich cefnogi yn eich paratoadau ar gyfer y broses gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr.

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu llywio mewn ymgynghoriad â'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestru a Refferenda , Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Llywodraeth y DU, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban, Cymdeithas Aseswyr yr Alban, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru.

Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi darparu rhywfaint o wybodaeth ariannu ar gyfer y mesurau newydd. Fe welwch gyfeiriadau at hyn lle bo'n berthnasol yn adrannau amrywiol y canllaw hwn.

Mae'r wybodaeth hon yn cwmpasu Cyllid Beichiau Newydd yn unig ar gyfer darpariaethau cyfran 1 a fydd ar gael trwy grant, Cynnig a Arweinir gan Gyfiawnhad neu system hybrid o'r ddau yn dibynnu ar y polisi. Bydd manylion cychwynnol y gofynion polisi, amserau talu, a hyd y cyfnod y bydd y cyllid hwn yn berthnasol ar gael gan Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a chânt eu hanfon at bob Cyfarwyddwr Cyllid awdurdod lleol.

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau am gyllid at yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

Cynllunio corfforaethol Awdurdod Lleol

Er mwyn cefnogi eich cyflwyniad o'r mesurau newydd, bydd angen i chi sicrhau bod y newidiadau a gyflwynir gan y Ddeddf Etholiadau nid yn unig yn cael eu cynnwys mewn cynllunio timau etholiadol a chofrestrau risg, ond bod y goblygiadau a'r effeithiau yn cael eu hystyried fel rhan o gynlluniau corfforaethol ehangach a rheoli risg hefyd.

Fel rhan o hyn, dylech sicrhau eich bod yn trafod effaith y mesurau ID pleidleisiwr newydd gyda'ch un pwynt cyswllt heddlu lleol.

Dylid adolygu cynlluniau corfforaethol a chynlluniau timau ac asesiadau risg yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol wrth i fwy o fanylion deddfwriaethol ddod i'r amlwg.

Bydd sicrhau dealltwriaeth gorfforaethol o'r newidiadau a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hwy hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael ar draws eich awdurdodlleol.

Staffio

Bydd y prosesau newydd a gyflwynir o ganlyniad i'r Ddeddf yn creu dyletswyddau ychwanegol i'w rhoi ar waith wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau ac wrth eu cynnal. Er ein bod yn cydnabod ei bod yn heriol amcangyfrif yr union ofynion o ran adnoddau heb wybod manylion y mesurau newydd, dylech ddechrau meddwl nawr am sut y byddwch yn nodi eich anghenion ar gyfer staff craidd a staff dros dro a sicrhau y gallwch symud yn gyflym i'w diwallu mewn da bryd, yn enwedig gan y gall y cyfnod rhwng cadarnhau'r manylion a'r cam gweithredu fod yn fyr.

Yn yr un modd a phan gyflwynwyd Cofrestriad Etholiadol Unigol, mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cadarnhau y darperir cyllid Beichiau Newydd lle y bo'n briodol i dalu am y costau ychwanegol a fydd yn deillio o'r newidiadau, gan gynnwys y prosesau ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer gweinyddu'r Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr. Bydd hyn yn seiliedig ar yr amser staff ychwanegol sydd ei angen i brosesu ceisiadau ar-lein neu geisiadau papur.

Mae Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau hefyd wedi cadarnhau y bydd cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer un aelod o staff canolfan gyswllt dros dro ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf o weithredu ar gyfer y ddau fis cyn y diwrnod pleidleisio pan ddisgwylir i ymholiadau fod ar eu uchaf. Gan fod hyn yn cael ei weld fel cost Swyddog Cofrestru Etholiadol, bydd hyn yn cael ei ariannu drwy feichiau newydd yn unig.

Yn ogystal â hyn, mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cadarnhau y bydd cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer un clerc pleidleisio ychwanegol fesul gorsaf bleidleisio ar gyfer blwyddyn 1 (2023/24) a blwyddyn 2 (2024/25) ac ym mhob blwyddyn etholiad cyffredinol Senedd y DU, ac y bydd cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer yr amser ychwanegol hynny y bydd angen i osod offer cysylltiedig â hygyrchedd. Mae hyn wedi ei gostio yn 10 munud ychwanegol o amser sefydlu.

Sut y byddwch yn:

- **Sicrhau bod gennych ddigon o staff craidd?**

Mae rhai o'r meysydd gweithgarwch newydd y bydd angen i'ch tîm craidd, gyda chymorth gan dimau eraill yn y cyngor, eu cyflawni yn cynnwys:

- Cynllunio, cyfathrebu a gwaith ychwanegol gyda grwpiau anabledd – yn ogystal â nodi a chaffael cyfarpar – er mwyn helpu i wneud y broses bleidleisio yn hygyrch i grwpiau gwahanol o bleidleiswyr
- Gweinyddiaeth ychwanegol yn ymwneud â'r Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr:
    - Dylech ragweld y byddwch yn cael ymholiadau gan bleidleiswyr unwaith y bydd y broses gwneud cais yn fyw, hyd yn oed os na fydd etholiadau wedi'u trefnu gennych ym mis Mai 2023. Bydd yr ymholiadau hyn yn ymwneud â'r canlynol:
        - y gofyniad i bleidleiswyr ddangos prawf adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio
        - y broses ymgeisio ar gyfer Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr a gaiff ei ddyroddi gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol
    - A fyddwch yn defnyddio canolfan gyswllt eich cyngor fel y man canolog ar gyfer rheoli ymholiadau er mwyn cefnogi staff craidd i ganolbwyntio ar weinyddu? Pryd y byddech yn cynllunio i'r trefniant hwn ddechrau a beth sydd ei angen er mwyn ei roi ar waith?
    - Sut byddwch yn rheoli ceisiadau am, neu dderbyn, ceisiadau papur am Dystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr?
    - Pa gymorth y gallai fod ei hangen arnoch i reoli'r gwaith o brosesu ceisiadau ychwanegol am bleidleisiau drwy ddirprwy mewn argyfwng mewn perthynas ag adnabod a darparu unrhyw Dystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr dros dro - yn enwedig ar neu'n union cyn y diwrnod pleidleisio?
- Cynllunio ar gyfer gweithgarwch cyfathrebu lleol, gan ddiweddaru eich cynllun cyfathrebu a rheoli unrhyw gynnydd yn nifer yr ymholiadau drwy gydol y flwyddyn gan bleidleiswyr, cynrychiolwyr etholedig a phleidiau ac, yn ychwanegol, gan ymgeiswyr ac asiantiaid yn ystod etholiad.
- Cynllunio ar gyfer digon o staff craidd/uwch yn y swyddfa etholiadau sydd wedi'u hyfforddi i ymdrin ag ymholiadau a chwynion uwch yn ymwneud â gofynion adnabod pleidleiswyr a'r broses ymgeisio am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr a Dogfennau Etholwr Dienw
- Cynllunio ar gyfer recriwtio staff dros dro ychwanegol, yn enwedig staff gorsafoedd pleidleisio ond hefyd, o bosibl, staff ychwanegol yn y swyddfa etholiadau, y ganolfan gyswllt a rhagor o arolygwyr gorsafoedd pleidleisio er mwyn helpu i roi'r darpariaethau newydd ar waith yn effeithiol

I'ch cefnogi i bennu nifer yr aelodau o staff craidd sydd eu hangen arnoch a'u recriwtio, dylech wneud y canlynol:

- Gweithio gyda'r adran Adnoddau Dynol ar gam cynnar yn eich gwaith cynllunio er mwyn datblygu strategaeth recriwtio fel y gallwch ddod o hyd i'r staff sydd eu hangen

arnoch a sicrhau bod gennych ddigon o amser i'w hyfforddi, gan ganiatáu ar gyfer unrhyw oedi cyn i recriwtiaid newydd ddechrau eu rolau

- Nodi staff allweddol eraill y bydd angen i chi weithio gyda nhw, er enghraifft, arbenigwyr hygyrchedd, timau cyfathrebu a staff canolfan gyswllt. Mae'n ddefnyddiol mabwysiadu dull cyngor cyfan mewn perthynas â chynnal etholiadau a'r broses cofrestru etholiadol, gan fanteisio ar arbenigedd o feysydd eraill. Bydd angen i chi sicrhau bod cydweithwyr perthnasol yn ymwybodol ar gam cynnar o sut a phryd y bydd angen cymorth arnoch drwy gydol y broses o roi'r darpariaethau newydd ar waith, a fydd yn eu galluogi i gynllunio ar gyfer unrhyw effaith cysylltiedig ar eu hadnoddau eu hunain
- Wrth benderfynu pa staff sydd eu hangen arnoch, a gwneud cynlluniau ar gyfer sut y byddwch yn eu recriwtio, dylech hefyd ystyried unrhyw gymorth y bydd ei angen arnoch gan gydweithwyr TGCh a chyfleusterau er mwyn sicrhau y bydd y seilwaith angenrheidiol gennych i gefnogi staff ychwanegol

Sicrhau bod gennych ddigon o staff dros dro mewn gorsafoedd pleidleisio i gynnal yr etholiad(au)?

At ddiben eich gwaith cynllunio, dylech dybio y bydd angen i chi benodi staff ychwanegol mewn gorsafoedd pleidleisio o ganlyniad i'r newidiadau a ddaw i rym o etholiadau mis Mai 2023. Er enghraifft, disgwylir y bydd angen i'ch staff:

- esbonio'r prosesau newydd i bleidleiswyr ac ateb unrhyw gwestiynau a all fod ganddynt
- gwirio dogfen adnabod ffotograffig pob pleidleisiwr cyn rhoi papur pleidleisio iddo/iddi
- cefnogi prosesau i wirio dogfennau adnabod ffotograffig yn breifat ar gais
- cadw cofnodion newydd mewn perthynas â phrawf adnabod ffotograffig pleidleiswyr
- deall a hwyluso'r defnydd o unrhyw gyfarpar neu gymorth ychwanegol a ddarperir yn yr orsaf bleidleisio i helpu pobl ag anableddau i bleidleisio

Mae'r Comisiwn yn argymell cymarebau i gefnogi'ch penderfyniadau wrth neilltuo etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio. Yng ngoleuni'r gofynion ychwanegol ar staff gorsafoedd pleidleisio, rydym wedi cynnal trafodaethau ag is-grŵp staffio'r Bwrdd Cynghori ar Gydlynu Etholiadol – a sefydlwyd i ystyried yr heriau a wynebir mewn perthynas â chadernid a chapasiti staff – i drafod dyrannu staff ac etholwyr i orsafoedd pleidleisio o ystyried y gofynion newydd. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â'r Gweithgor Etholiadau, Refferenda, a Chofrestru ac wedi ymgynghori â nhw ar y canllawiau a'r cymarebau sydd wedi'u diweddaru. Adlewyrchir hyn bellach yn y canllawiau i Swyddogion Canlyniadau ar gyfer yr etholiadau sydd wedi eu trefnu ar gyfer mis Mai 2023.

Os nad ydych chi wedi'n barod, dylech ddechrau nodi unrhyw orsafoedd pleidleisio sy'n fwy na'r uchafswm nifer newydd o etholwyr a argymhellir ac ystyried pa opsiynau a allai fod gennych ar gyfer eu rhannu neu eu rheoli'n wahanol, er mwyn helpu i ddarparu ar gyfer y gweithdrefnau ychwanegol newydd unwaith y byddant mewn grym.

- Yn ogystal â hyn, i sicrhau eich bod yn y sefyllfa orau bosibl i allu recriwtio'r staff dros dro y bydd eu hangen arnoch os oes etholiadau wedi'u trefnu gennych ym mis Mai 2023, dylech gysylltu â'r bobl sydd yn eich cronfa ddata o staff etholiadol yn gynnar er mwyn gweld a ydynt ar gael.

- Gwyddom fod rhai Swyddogion Canlyniadau wedi'i chael hi'n anodd recriwtio staff dros dro mewn digwyddiadau etholiadol diweddar. I'ch helpu i reoli eich gofynion staffio dros dro, gallech wneud y canlynol hefyd, os nad ydych yn gwneud hyn eisoes:
    - siarad â'ch adran Adnoddau Dynol i drafod sut y gallai eich helpu i ddatblygu eich cynlluniau recriwtio a'u rhoi ar waith
    - nodi cyfleoedd i ehangu eich cronfa recriwtio drwy gysylltu ag asiantaethau recriwtio, ymgysylltu â phoblogaethau neu sefydliadau myfyrwyr lleol, neu ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol a gwefannau mewnol ac allanol y cyngor
    - siarad â'ch Swyddog Canlyniadau a rheolwyr adrannol eraill yn eich awdurdod lleol er mwyn gweld a oes ganddynt bobl a allai weithio fel staff dros dro ar gyfer rhannau penodol o'r broses etholiadol

Cynllunio'r hyfforddiant a ddarperir gennych?

Fel rhan o'ch gwaith cynllunio bydd angen i chi ddiweddaru eich cynlluniau hyfforddiant er mwyn adlewyrchu'r prosesau newydd y bydd angen i staff eu cyflawni. Dylech nodi pawb a fydd yn ymwneud â hyn, boed yn y gwaith o gynnal yr etholiad neu brosesu ceisiadau am y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr ac ystyried pa hyfforddiant ychwanegol y bydd ei angen arnynt. Dylai hyn gynnwys aelodau presennol o'r tîm a rhai newydd/dros dro.

Er enghraifft, nawr ein bod yn gwybod y bydd y Porth Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2023, mae'n bwysig bod hyfforddiant ar gyfer staff craidd ac unrhyw staff rheng flaen canolfan gyswllt neu dderbynfa, a allai fod angen cynorthwyo etholwyr i gwblhau ceisiadau, yn digwydd ymlaen llaw cyn y dyddiad hwn.

Mae angen i chi hefyd sicrhau, ar gyfer unrhyw is-etholiadau a gynhelir cyn 4 Mai 2023, bod staff eich gorsaf bleidleisio yn deall nad yw'r darpariaethau ID pleidleisiwr newydd mewn grym eto a'u bod yn gallu esbonio i etholwyr a all geisio cyflwyno ID nad yw'r darpariaethau hynny yn berthnasol i'r bleidlais honno.

Yn ogystal â hyn, bydd angen hyfforddiant ar staff tîm craidd i gyflwyno prosesau newydd gan gynnwys:

- sut mae proses gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr a Dogfen Etholwr Dienw yn gweithio ar-lein a thrwy geisiadau papur
- sut mae pennu ceisiadau yn y Porth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a sut y bydd y prosesau eithriadau ac ardystio yn gweithio
- sut y bydd cynhyrchu a darparu Tystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr a Dogfennau Etholwyr Dienw yn gweithio
- sut i gefnogi unrhyw etholwr a allai fod angen cymorth i gwblhau eu cais, a sut y bydd unrhyw geisiadau mewn person yn gweithio'n ymarferol

Bydd angen hyfforddiant cynnar ar staff craidd, staff rheng flaen – megis staff canolfan gyswllt a derbynfa'r cyngor – a thimau cyfathrebu ehangach er mwyn deall y manylion canlynol a gallu eu hesbonio i bleidleiswyr:

- beth mae cyflwyno prawf adnabod ffotograffig ar gyfer pleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio yn ei olygu iddynt, gan gynnwys mathau derbyniol o brawf adnabod, beth

fydd y broses os na fydd gan rywun brawf adnabod, gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr, a sut y bydd y broses o wirio prawf adnabod ffotograffig yn gweithio mewn gorsafoedd pleidleisio

- pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod pleidleisio yn hygyrch i bawb a sut gall pleidleiswyr gael gafael ar gymorth ychwanegol pan fo angen
- yr hyblygrwydd ychwanegol i bleidleiswyr anabl o ran pwy all fod yn gydymaith iddynt yn yr orsaf bleidleisio

Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cadarnhau y bydd cyllid ar gael ar gyfer hyfforddi staff craidd. Mae hyn ar y sail y bydd angen un diwrnod o hyfforddiant i gwmpasu holl ddarpariaethau cyfran 1.

Bydd angen i staff gorsafoedd pleidleisio ddeall sut i reoli'r newidiadau yn yr orsaf bleidleisio, megis:

- y gofynion ar gyfer darparu prawf adnabod ffotograffig wrth bleidleisio, gan gynnwys mathau o brawf adnabod a dderbynnir, y prosesau gwirio a beth i'w wneud os nad oes gan bleidleisiwr brawf adnabod neu os yw'n gwrthod ei ddarparu
- unrhyw ofynion o ran cadw cofnodion o ganlyniad i'r mesurau newydd
- pa gyfarpar i gefnogi pleidleiswyr anabl fydd ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio a sut i'w ddefnyddio
- pwy all fod yn gydymaith i bleidleisiwr anabl

Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cadarnhau y bydd cyllid ar gael ar gyfer hyfforddiant ar y darpariaethau newydd ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio. Bydd hyn yn cael ei ddarparu ar sail y bydd angen 10 munud ychwanegol ar gyfer y darpariaethau hygyrchedd a 30 munud ar gyfer ID pleidleisiwr.

Unwaith y caiff manylion y mesurau eu cadarnhau'n derfynol, byddwn yn rhoi gwybodaeth fanwl i chi am yr hyn y bydd angen i chi ei gynnwys yn eich hyfforddiant yn ein canllawiau craidd diwygiedig ac mewn adnoddau megis templedi briffio i staff gorsafoedd pleidleisio, ymgeiswyr ac asiantiaid. Byddwn hefyd yn cyhoeddi rhestr ddiwygiedig o gwestiynau cyffredin ar gyfer eich staff rheng flaen ac yn eu cynnwys yn y llawlyfr diwygiedig ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio.

Yn y cyfamser, gallwch hefyd ddechrau meddwl am sut y byddwch yn cyflwyno eich hyfforddiant:

- Mae'n bosibl y bydd angen i chi hyfforddi mwy o bobl na'r arfer er mwyn bodloni eich gofynion staffio, a allai olygu y bydd angen lleoliadau mwy o faint a/neu ragor o sesiynau arnoch. Dylid adlewyrchu hyn yn eich cynlluniau hyfforddiant.
- Byddwch yn rhoi hyfforddiant ar nifer o brosesau etholiadol newydd cymhleth. Meddyliwch am amseriad a ffurf sesiynau hyfforddi. Er enghraifft, gallech roi hyfforddiant ymwybyddiaeth gyffredinol wyneb yn wyneb yn llawer cynharach na'r arfer yn y cyfnod cyn yr etholiadau wrth gydgrynhoi'r newidiadau drwy atebion e-ddysgu a sesiynau ychwanegol, a allai hefyd ymdrin ag unrhyw gwestiynau cyffredin a nodir drwy eich rhaglen hyfforddiant.

- Bydd angen i chi ystyried sut y gallwch ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o hygyrchedd i'r holl staff sy'n rhyngweithio â phleidleiswyr, gan gynnwys staff sy'n cefnogi gwasanaethau etholiadol a hefyd staff craidd a'r rheiny a fydd yn gweithio mewn gorsafoedd pleidleisio, er mwyn helpu i wella eu dealltwriaeth o anghenion pleidleiswyr anabl a phwysigrwydd cyfathrebu clir.
- Gallai defnyddio atebion e-ddysgu eich galluogi i roi hyfforddiant i fwy o bobl ac osgoi'r angen i neilltuo eich amser neu drefnu lleoliadau hyfforddiant y gallai fod eu hangen ar gyfer prosesau etholiadol eraill. Mae'n bosibl hefyd y bydd e-ddysgu yn galluogi staff gorsafoedd pleidleisio i ailedrych ar yr hyfforddiant yn agosach at y diwrnod pleidleisio er mwyn gloywi eu gwybodaeth a gellid cynnal sesiynau holi ac ateb i gyd-fynd â hyn er mwyn ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi. Dylech asesu ansawdd unrhyw becynnau e-ddysgu parod yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r holl ofynion deddfwriaethol ac yn diwallu unrhyw anghenion hyfforddi lleol penodol.
- Gallech hefyd ddarparu adnoddau cyfeirio ar-lein neu wedi'u hargraffu i staff. Mae'n bwysig bwrw golwg dros y deunyddiau briffio a'r adnoddau sydd gennych eisoes a chynllunio ar gyfer pa rai o'r rhain y bydd angen eu diweddaru unwaith y bydd rhagor o fanylion gennym.
- Bydd angen rhoi gwybod i aelodau etholedig ac ymgeiswyr ac asiantiaid am y newidiadau a gyflwynir yn sgil y Ddeddf Etholiadau. Dylech feddwl am sut y byddwch yn cyfleu'r newidiadau hyn ac ystyried sut i ddefnyddio sesiynau briffio, pecynnau gwybodaeth a chyfleoedd eraill, megis cyfarfodydd y cyngor, i gefnogi hyn. Gallech ddechrau drwy godi ymwybyddiaeth o'r darpariaethau yn gyffredinol, ac yna roi sesiynau briffio manylach unwaith y byddwch wedi datblygu eich cynlluniau gweithredu.

Lleoliadau a chyfarpar

Bydd angen i chi wneud penderfyniadau ynglŷn â pha leoliadau gorsafoedd pleidleisio y byddwch yn eu defnyddio yn seiliedig ar eich meini prawf arferol – gan gynnwys hygyrchedd, lleoliad a chapasiti – yn ogystal ag ystyried gofynion y newidiadau a gyflwynir gan y Ddeddf.

Er ein bod yn aros i'r broses benodol a gaiff ei dilyn mewn gorsafoedd pleidleisio gael ei chadarnhau, dylech gynllunio ar gyfer y tebygolrwydd y gall pleidleiswyr gymryd mwy o amser i symud drwy'r broses bleidleisio oherwydd y newidiadau y disgwylir iddynt ddod i rym erbyn mis Mai 2023 – y gofyniad i gyflwyno prawf adnabod ffotograffig ac effaith darpariaethau hygyrchedd newydd.

Bydd angen i chi ystyried a yw pob lleoliad yn ddigon mawr i ddarparu gwasanaeth da i bleidleiswyr, sicrhau cyfrinachedd y bleidlais, darparu ardaloedd preifat angenrheidiol er mwyn gwirio dogfennau adnabod ffotograffig, sicrhau bod digon o le i'r nifer gofynnol o staff a lleihau'r risg o dagfeydd a chiwiau.

Bydd angen i chi ystyried ble y byddwch yn cynnig cymorth i etholwyr gyda'u ceisiadau am Dystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr, a'r broses o reoli Tystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr dros dro. Bydd angen i hyn fod yn hygyrch i etholwyr gyda gofod a chefndir addas ar gyfer tynnu lluniau, gan gynnwys i bobl y mae angen i hyn gael ei wneud yn breifat, a chyfleusterau argraffu.

Dylech hefyd gysylltu â'ch adran TG i sicrhau nad yw unrhyw ddogfennau cais Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr a ddarperir trwy e-bost, a allai gynnwys atodiadau mawr (er enghraifft llun yr etholwr), yn cael eu rhwystro gan ffilterau sbam / waliau tân.

Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cadarnhau y bydd pob Awdurdod Lleol yn gallu prynu un camera ac un argraffydd-sganiwr ar gyfer Tystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr dros dro os oes angen. Efallai y bydd angen i chi ystyried y storfa ychwanegol y bydd ei hangen arnoch ar gyfer unrhyw offer newydd sy'n ofynnol o dan y darpariaethau i gynnal yr etholiadau. Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cadarnhau y bydd costau gofod storio ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y cyllid beichiau newydd.

Sut y byddwch yn...?

- **Adolygu addasrwydd gorsafoedd pleidleisio presennol a nodi lleoliadau newydd posibl?**

- Bydd angen i chi adolygu addasrwydd eich lleoliadau arferol yn sgil yr ystyriaethau disgwyliedig mewn perthynas â gwirio dogfennau adnabod ffotograffig. Er enghraifft:
  - sut y gallwch gynllunio llif etholwyr drwy'r orsaf bleidleisio er mwyn rheoli unrhyw dagfeydd neu giwiau yn effeithiol
  - p'un a oes gan y lleoliad fan preifat, neu fan lle gellid gosod sgrin, er mwyn gwirio prawf adnabod ffotograffig unigolyn sy'n gwisgo gorchudd wyneb neu geisiadau gan bobl am i'w prawf adnabod ffotograffig gael ei wirio'n breifat
  - sut y bydd rhoi unrhyw rai o'r gofynion o ran prawf adnabod ffotograffig pleidleiswyr ar waith mewn gorsafoedd pleidleisio yn effeithio ar nifer y pleidleiswyr y byddwch yn eu neilltuo i orsaf bleidleisio benodol
- Os byddwch yn penderfynu defnyddio lleoliadau ychwanegol neu amgen yn lle gorsafoedd pleidleisio presennol, efallai y bydd angen cynnal adolygiad interim o fan pleidleisio ar gyfer hyn. Rydym wedi paratoi canllawiau ar yr adolygiadau o ddosbarthiadau a mannau pleidleisio, a dylech ddilyn yr un prosesau ar gyfer unrhyw adolygiad interim ag y byddech yn ei wneud ar gyfer adolygiad gorfodol.
- Mae'n bwysig eich bod yn ystyried a fydd angen cynnal unrhyw adolygiadau o fannau pleidleisio mor gynnar yn eich proses gynllunio â phosibl er mwyn sicrhau bod gennych ddigon o amser ac adnoddau i gyflawni'r camau angenrheidiol sy'n gysylltiedig â chynnal yr adolygiadau mewn pryd i gefnogi'ch gwaith paratoi ar gyfer yr etholiadau.
- Fel bob amser, bydd angen i chi sicrhau bod unrhyw fannau pleidleisio amgen neu newydd yn hygyrch a bod ganddynt gyfleusterau rhesymol ar gyfer pleidleisio. Dylid hysbysu etholwyr, ymgeiswyr a rhanddeiliaid eraill am unrhyw newidiadau i fannau pleidleisio mewn ffordd glir ac amserol fel y bo angen.

- **Adolygu'r offer sydd i'w ddarparu i orsafoedd pleidleisio?**

- Fel rhan o adolygu addasrwydd eich gorsafoedd pleidleisio dylech hefyd asesu pa offer fydd eu hangen.

- Er mwyn cefnogi rheolaeth y darpariaethau adnabod pleidleiswyr, mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cadarnhau y bydd cyllid ar gael ar gyfer un sgrin preifatrwydd a drych fesul gorsaf bleidleisio.
- Mae prynu offer i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch yn ôl disgresiwn y Swyddog Canlyniadau. Rydym wedi cynnal ymgynghoriad cychwynnol ar ganllawiau newydd ynghylch cymorth i bleidleisio ar gyfer pobl anabl. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ym mis Hydref. Bydd yr ymgynghoriad statudol ffurfiol yn agor ym mis Rhagfyr, ond gellir gweld manylion y cam ymgynghori cychwynnol ar ein gwefan er gwybodaeth. Cyhoeddir fersiwn derfynol y canllawiau yn gynnar yn 2023 ar ôl i'r cyfnod ymgynghori statudol gael ei gwblhau. Bydd y canllawiau'n cynnwys rhestr o eitemau yr ydym ni'n ystyried y dylid bod ar gael ym mhob gorsaf bleidleisio, megis seddi ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n llai abl i sefyll neu ddyfeisiau ysgrifennu cynorthwyol megis gafaelion pensil.
- Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cadarnhau y bydd cyllid ar gael i brynu offer rhesymol i gefnogi pobl anabl i bleidleisio mewn etholiadau. Bydd hyn yn seiliedig ar nifer y gorsafoedd pleidleisio yn ardal yr awdurdod lleol.
- Bydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn darparu ffynonellau posibl ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau gyda phrisiau cytunedig a fydd yn cael eu talu gan y Cyllid Beichiau Newydd. Gallwch, fodd bynnag, gaffael eich rhai eich hunain.

Datblygu eich cynllun cyfathrebu a'ch strategaeth ymgysylltu

Drwy ymgysylltu â chydweithwyr cyfathrebu yn gynnar gallwch ddechrau meddwl am ba negeseuon y bydd angen i chi gynllunio eu rhannu, pryd y caiff y negeseuon hyn eu rhannu a'r cynulleidfaoedd gwahanol y byddwch yn eu targedu. Gallech hefyd ystyried unrhyw gyfleoedd i gydweithio, megis drwy weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos eraill.

Ochr yn ochr â'ch negeseuon arferol ar gyfer etholiadau, bydd angen i chi gynllunio i gynnwys negeseuon am y canlynol:

- y gofyniad i bleidleiswyr ddarparu mathau dilys o brawf adnabod ffotograffig er mwyn pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio
- sut i wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr os oes angen a'r dyddiadau cau perthnasol
- y newidiadau o ran pwy all gynorthwyo pleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio a hyrwyddo unrhyw wybodaeth, cymorth neu gyfarpar arall a fydd ar waith i helpu pleidleiswyr ag amrywiaeth o anghenion ychwanegol i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol

Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi cyfres o ddeunyddiau ymwybyddiaeth a gwybodaeth y cyhoedd y bydd awdurdodau lleol yn gallu eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebiadauwedi'u teilwra ar gyfer y rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i ddefnyddio prawf adnabod i bleidleisio, gan gynnwys:

- pobl hŷn
- pobl anabl
- pobl drawsrywiol ac anneuaidd
- cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

- pobl sy'n profi digartrefedd a'r rhai sy'n byw mewn llochesi
- etholwyr di-enw

Bydd adnoddau yn cynnwys:

- Canllaw i staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â'r cyhoedd
- Taflen i bleidleiswyr
- Posteri, y gellir eu hargraffu naill ai ar argraffydd swyddfa neu'n fasnachol
- Adnoddau digidol, gan gynnwys graffeg cyfryngau cymdeithasol a thempled cylchlythyr a chopi gwe
- Adnoddau templed i'r wasg (gan gynnwys datganiadau i'r wasg)

Bydd ein holl adnoddau ar gael ar ein gwefan ac yn cael eu rhannu trwy ein cylchlythyr e-bost Y Gofrestr (gallwch gofrestru yma os nad ydych eisoes wedi cofrestru) cyn lansio porth gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr y Llywodraeth ym mis Ionawr. Unwaith y byddant ar gael, efallai yr hoffech rannu'r adnoddau hyn gyda thimau yn eich awdurdod lleol sy'n gweithio gydag un neu fwy o'r grwpiau hyn, megis timau synhwyraidd sy'n gallu rhannu'r wybodaeth hon yn uniongyrchol â phobl ddall a rhannol ddall sydd ar eu cofrestrau colli golwg.

Cyn cyflwyno'r gofyniad i ddangos prawf adnabod ffotograffig er mwyn pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch eang i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn deall y newid ac i gefnogi cyfranogiad parhaus yn y broses etholiadol. Bydd yr ymgyrch yn codi ymwybyddiaeth o'r gofyniad i ddangos prawf adnabod ffotograffig ac yn atgoffa'r cyhoedd i ddod â'u prawf adnabod gyda nhw pan fyddant yn pleidleisio. Bydd ein gwaith hefyd yn helpu pleidleiswyr i ddeall pa fathau o brawf adnabod ffotograffig y gellir eu defnyddio ac yn cefnogi'r rheini nad oes ganddynt brawf adnabod cymwys i ddeall sut a phryd y gallant wneud cais am eu Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr am ddim.

Bydd yr ymgyrch hysbysebu wedi ei dalu yn digwydd dros ddau gam:

- Cam un (Ionawr – Mawrth 23): cyfnod ymwybyddiaeth yn rhedeg ar draws Lloegr gyda'r nod o wneud yn siŵr bod cymaint o bobl â phosibl yn ymwybodol o'r newid cyn etholiadau'r dyfodol.
- Cam dau (Mawrth – Mai 23): cyfnod brys lle byddwn yn canolbwyntio gweithgarwch yn benodol ar ardaloedd etholiad. Bydd gweithgaredd yn cynnwys anfon nodiadau atgoffa amserol yn y cyfnod cyn ac ar y diwrnod pleidleisio i atgoffa pobl i ddod â'u ID gyda nhw pan fyddant yn pleidleisio.

Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth am ein cynlluniau trwy ein cylchlythyr Y Gofrestr.

Dylech hefyd ddechrau eich gwaith i feddwl am sut y gallwch sicrhau bod pleidleiswyr sydd ag anghenion hygyrchedd ychwanegol yn gwybod am y mesurau newydd drwy nodi sefydliadau partner ac elusennau a grwpiau lleol â diddordeb sy'n cynrychioli'r rheini ag anghenion ychwanegol. Gallwch ddechrau meddwl am sut y gallwch gydweithio i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth y gallwch ei gynnig i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio.

I'ch cefnogi gyda'ch gwaith i sicrhau y gall pawb bleidleisio'n annibynnol ac yn hyderus, rydym yn llunio canllawiau diwygiedig i helpu Swyddogion Canlyniadau a'u timau i ddeall y rhwystrau i bleidleisio a wynebir gan bobl anabl a gwneud penderfyniadau ar sail

gwybodaeth ynghylch yr hyn y gallant ei wneud i helpu i wneud pleidleisio yn hygyrch i bawb. Cynhaliom ymgynghoriad cychwynnol ar y canllawiau hyn rhwng 5 Medi a 17 Hydref eleni a byddwn yn lansio ein hymgynghoriad statudol ffurfiol ym mis Rhagfyr. Rydym wedi darparu manylion yr ymgynghoriad a dolen i'r canllawiau drafft cychwynnol ar ein gwefan a byddwn yn eich diweddaru drwy Fwletin Gweinyddu Etholiadol unwaith y bydd yr ymgynghoriad ffurfiol wedi dechrau.

Gweithio gyda chyflenwyr

Bydd angen i chi feddwl am sut y byddwch yn sicrhau y bydd y cyflenwyr rydych yn gweithio gyda nhw yn gallu eich helpu i gyflawni'r gofynion newydd o dan y Ddeddf.

- **Cyflenwyr argraffu – Beth y gallwch ei wneud i baratoi nawr?**

Mae'r swm o wybodaeth y bydd ei hangen ar etholwyr cyn y diwrnod pleidleisio am y gofyniad i ddangos prawf adnabod a newidiadau eraill mewn perthynas â'r Ddeddf yn golygu efallai y bydd angen i'r cerdyn pleidleisio fod yn ddogfen A4 mewn amlen erbyn hyn, yn hytrach na'r ffurflen A5 ddwyochrog draddodiadol, er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a gaiff ei nodi mewn deddfwriaeth mewn ffordd hygyrch.

Mae'n debygol y bydd y newid hwn yn effeithio ar y canlynol:

- y mathau o nwyddau y byddwch yn eu caffael gan argraffwyr er mwyn anfon cardiau pleidleisio, a'u ffurf, gan gynnwys papur ac amlenni
- y testun sylfaenol a gaiff ei gynnwys, gan gynnwys gwybodaeth am brawf adnabod pleidleiswyr a mesurau hygyrchedd newydd
- y wybodaeth a gaiff ei chynnwys ar unrhyw brif amlenni er mwyn rhoi gwybod i etholwyr fod gwybodaeth etholiadol bwysig yn amgaeëdig; rhoddir enghreifftiau isod i chi gyfeirio atynt
- yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r deunydd argraffedig
- y broses ddosbarthu, gan y bydd angen rhoi llythyrau mewn amlenni cyn eu rhoi i wasanaethau dosbarthu post

Dylech barhau i sicrhau bod yr holl wybodaeth bleidleisio a ddarperir gennych i etholwyr cyn y diwrnod pleidleisio yn cael ei darparu mewn fformat hawdd ei ddefnyddio, sy'n hygyrch i bleidleiswyr ei ddarllen a'i ddeall a chymryd unrhyw gamau y mae angen iddynt eu gwneud o ganlyniad. Dylech hefyd feddwl pa wybodaeth ychwanegol y gallwch ei chynnwys, y tu hwnt i'r testun rhagnodedig, i helpu i gefnogi pleidleiswyr anabl i ddeall pa gymorth sydd ar gael i helpu i sicrhau hygyrchedd y broses bleidleisio.

Wrth feddwl am ddyluniad unrhyw amlenni cardiau pleidleisio gyda'ch cyflenwr, rydym yn argymell:

- dylai'r amlenni fod yn lân gydag is-bennawd syml i hysbysu etholwyr bod gwybodaeth etholiad bwysig wedi'i hamgáu
- nid oes unrhyw wybodaeth cerdyn pleidleisio – megis y rhif etholwr – wedi'i chynnwys ar yr amlen flaen
- dylai'r amlen fod yn frown (os yn bosibl) a chynnwys logo'r cyngor ar y blaen a chyfeiriad dychwelyd y cyngor ar y cefn

Dyma rai enghreifftiau o negeseuon y gallech eu cynnwys ar flaen yr amlen i dynnu sylw ato a darparu gwybodaeth glir i etholwyr:

- Gwybodaeth bwysig am bleidleisio ynghlwm
- Peidiwch ag anwybyddu

  Gwybodaeth bwysig am bleidleisio ynghlwm
- Peidiwch ag anwybyddu

  Gwybodaeth cerdyn pleidleisio y tu mewn

Gwyddom fod gwaith i yn mynd rhagddo i ymgysylltu â grwpiau cyflenwyr a arweinir gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ynghylch gofynion y cardiau pleidleisio. Dylech gynnal trafodaethau â'ch argraffwyr ar gam cynnar er mwyn sicrhau:

- y gallant gynhyrchu'r hyn sydd ei angen arnoch o fewn yr amserlenni gofynnol
- bod y dyfynbrisiau diweddaraf gennych ar gyfer y gwaith er mwyn llywio eich gwaith cynllunio cyllidebol
- eich bod yn cytuno ar sut y byddwch yn sicrhau ansawdd y broses o ddylunio i argraffu i ddosbarthu.

Mae’r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cadarnhau y bydd cyllid ar gael i dalu am y gwahaniaeth yn y pris rhwng cynhyrchu'r cerdyn pleidleisio A5 presennol ac un A4 mewn amlen, yn ogystal ag unrhyw wahaniaethau yn y ffi dosbarthu.

Cyflenwyr System Rheoli Etholiad – Beth allwch chi ei wneud i baratoi nawr?

Mae'r darparwyr meddalwedd system rheoli etholiad wrthi'n gweithio gyda swyddogion yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar hyn o bryd i sicrhau y caiff gofynion y darpariaethau newydd eu bodloni a'u datblygu a'u profi yn briodol. Fel rhan o hyn, gofynnir am arddangosiadau system a phrofion derbyniad defnyddwyr gan bob cyflenwr System Rheoli Etholiadau

Eto, er nad yw manylion penodol ynghylch sut y bydd y porth Swyddog Cofrestru Etholiadol yn rhyngweithio â Systemau Rheoli Etholiad wedi'u cadarnhau ar hyn o bryd, bydd prosesau newydd o fewn eich Systemau Rheoli Etholiad y bydd angen i'ch staff eu deall a chael hyfforddiant i'w defnyddio. Dylech ddechrau meddwl am sut y gallwch gynllunio ar gyfer yr hyfforddiant hwn, yn enwedig gan y gall ddigwydd yn agos at y dyddiad y bydd y broses gwneud cais yn mynd yn fyw, o ystyried yr amseru disgwyliedig i'r is-ddeddfwriaeth ofynnol gael ei gwneud.